Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae - Adnodd 3

## Grŵp Monitro Chwarae (neu grŵp tebyg) - Cylch gorchwyl

**Amcan**

Cydweithio er mwyn helpu i ddatblygu'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Chwarae.

**1. Dyletswyddau statudol**

1.1 O dan Bennod 2, Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, mae gan bob awdurdod lleol ddyletswydd i asesu p'un a oes digon o gyfleoedd chwarae ar gael.

1.2 Yr awdurdod lleol yw'r arweinydd strategol o ran Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a disgwylir iddo weithio gyda phartneriaid i asesu a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae yn ei ardal.

1.3 Bydd y Cynllun Gweithredu Chwarae yn cael ei adolygu'n flynyddol, a bydd Adroddiad Cynnydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghyd â Chynllun Gweithredu Chwarae ar gyfer y flwyddyn nesaf.

1.4 Yr awdurdod lleol hefyd yw'r arweinydd strategol ar gyfer camau i sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae.

**2. Wrth ddatblygu a gweithredu'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, bydd y grŵp monitro yn:**

2.1 Darparu gwybodaeth a data cywir a chyfredol er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn ystyried y canlynol:

- Y boblogaeth
- Anghenion amrywiol
- Y lle sydd ar gael i blant chwarae
- Y cyfleoedd a ddarperir i chwarae dan oruchwyliaeth
- Gweithgareddau hamdden strwythuredig i blant
- Mynediad i le/darpariaeth
- Sicrhau a datblygu’r gweithlu chwarae

- Chwarae ym mhob polisi perthnasol ac agenda weithredu berthnasol
- Gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau.

2.2 Ystyried ymgynghoriadau eraill a gynhaliwyd neu sy'n cael eu cynnal yn yr awdurdod lleol.

2.3 Ceisio cymorth, cyngor ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol eraill a Chwarae Cymru drwy rannu arferion da a gwersi a ddysgwyd.

2.4 Sicrhau bod tasgau yn cael eu cwblhau gan yr adran berthnasol o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt

2.5 Sicrhau bod yr amserlen yn cael ei monitro.

**3. Yr egwyddorion, ac allbynnau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae:

3.1 Sicrhau bod pob partner sydd â budd yn yr Asesiad wedi cael ei gynrychioli'n ddigonol.

Allbynnau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae:

3.2 Bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn llywio'r cynlluniau gweithredu. Dylid cwblhau Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Chynllun Gweithredu Chwarae a fydd yn nodi'r camau gweithredu ar gyfer sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn yr awdurdod lleol.

3.3 Dylid darparu gwybodaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i sicrhau bod yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cael ei integreiddio yn y gwaith o gynllunio, gweithredu ac adolygu'r cynlluniau strategol

3.4 Dylid cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol Adroddiad Chwarae ein Rhan: Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae er mwyn hysbysu'r cyhoedd sut y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau cyfleoedd chwarae digonol.

**4. Llywodraethu'r Grŵp Monitro Chwarae (neu grŵp tebyg)**

4.1 Bydd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran cyflogeion y Cyngor Sir a phartneriaid allanol allweddol, gan gynnwys y sector chwarae gwirfoddol.

4.2 Dylid cymryd cofnodion o gyfarfodydd y grŵp a'u rhannu gyda'r aelodau.

4.3 Bydd y Grŵp Monitro Chwarae (neu grŵp tebyg) yn adrodd ar ei gynnydd i'r ________________________________ (*ychwanegwch grŵp ac amlder*).